

Y Gof

Tymor yr Hydref

£1.00

Croeso i bapur newydd diweddaraf Y Gof. Dyma bapur newydd Ysgol Pont y Gof. Blwyddyn 3 a 4 sydd wedi bod wrthi eleni yn casglu gwybodaeth ac yn rhoi'r newyddion diweddaraf at ei gi-lydd i chi o Bont Y Gof. Edrychwn yn ôl ar dymor yr Hydref, tymor prysur iawn yn llawn digwyddiadau difyr.

Yn y Rhifyn hwn:

- Diolchgarwch
- Y Carped Coch
- Dyfeisiau Difyr
- Mentergarwch
- Tudalen y Plant

Croeso i'r Plant Meithrin



Blwyddyn 0 ac 1



Mae blwyddyn 0 ac 1 wedi bod yn gwneud gwaith ar thema 'Fi fy hun' tymor yma. Mi ddilynnon nhw stori Elen Ben Felen a Hugan Fach Goch. Cafodd y dosbarth daith ddifyr i Garnfadryn gyda Rhys ac mi ddysgon nhw lawer o bethau difyr am eu milltir sgwâr. Mae nhw hefyd wedi cael taith o gwmpas pentref Botwnnog yn edrych ar wahanol fathau o dai.

Darllenon nhw lyfr stori Nain, Nain, Nain. Roedd Nain mewn cartref gofal a thrwy hyn, cafodd y plant ymuno gyda sesiwn ymarfer corff cartref Hafod Hedd ar-lein.

Mae nhw wedi bod yn darllen stori Beti Bwt a daeth Beti Bwt draw i ddangos iddyn nhw sut oedden nhw yn golchi dillad flynyddoedd yn ôl. Yn rhan o'u gwaith gwyddoniaeth, mae nhw wedi bod yn edrych ar oleuni a gweld sut mae cylched drydan yn gweithio.

Yn eu gwaith mathemateg, mae nhw wedi bod yn gwneud gwaith mesur, aethon nhw i'r ardd wyllt i wneud ychydig o waith mesur. Maen nhw hefyd wedi bod yn gwneud gwaith ar siapiau

Mae blwyddyn 0 ac 1 wedi bod yn dysgu am wyl Diwali ac wedi bod yn coginio somsonas blasus. Mae'r dosbarth hefyd wedi bod yn greadigol iawn wrth fynd i'r ardd wyllt i wneud ychydig o waith celf. Yn yr wythnosau cyn i ni gau am y Nadolig, mae nhw wedi bod yn bruser yn creu addurniadau Nadolig yn defnyddio brigau i wneud coeden fach hardd.



Blwyddyn 3 a 4

Mae blwyddyn 3 a 4 wedi bod yn dilyn thema Dyfeisiau Difyr. Rydym wedi bod yn edrych ar wahanol ddyfeisiau ac edrych sut mae nhw wedi datblgu dros y blynnyddoedd. Rydym hefyd wedi bod yn edrych pa mor glyfar yw dyfeisiau wrth rannu llun ar 'Facebook' er mwyn gweld pa mor bell oedd y llun yn ei gyrraedd yn y byd. A choeliwch neu beidio, mi gyrhaeddodd y llun i ben draw'r byd. Cafodd ei rannu yn Seland Newydd, Awstralia, Canada, Yr Iseldiroedd a llawer o wledydd eraill. Ar ôl gweld yr holl leoliadau oedd y llun wedi ei gyrraedd, mi wnaethom ni waith daearyddiaeth yn edrych ar fap o'r byd er mwyn gweld lle oedd y llefydd difyr yma.

Ar y newyddion yn ddiweddar, mae llawer o sylw wedi cael ei roi i Cop 26. Rydym ni wedi bod yn dilyn y diweddariadau ac wedi edrych ar effaith Cynhesu Byd Eang ar ein byd. Cawsom gyfle i fynegi ein barn ein hunain ar hyn a meddwl am ffyrdd y gallwn helpu i arafu'r effeithiau hyn ar ein byd.

Yn ein Gwaith Saesneg, rydym wedi bod yn darllen nofel My Magic Finger gan Roald Dahl. Daeth Tudur draw i gyflwyno ychydig mwy o hanes Roald Dahl ac roedd yn action fel cymeriadau o wahanol lyfrau Roald Dahl.

Rydym wedi bod yn brysur gyda'n gwaith mathemateg yn creu graffiau yn ein lylfrau ac ar rhaglen 'Excel'. Rydym wedi bod yn gwneud llawer o waith adio a thynnu ac edrych ar werth rhif.

Cyn y Nadolig, rydym wedi bod yn mesur gyda unedau cm a mm. Rydym wedi bod yn mesur gwahanol siapiau a gwneud rhai ein hunain. Rydym hefyd wedi bod yn ysgrifennu dyddiadur corrach sydd yn brysur yn helpu Sion Corn ychydig ddyddiau cyn y Nadolig.




Blwyddyn 5 a 6



Rydym ni yn nosbarth 5 a 6 wedi bod brysur iawn yn dilyn themau dyfeisiau difyr hen a newydd. Rydym wedi bod yn gwneud gwaith am y chwyldro diwydiannol er mwyn gallu gweld pa ddyfeisiau sydd wedi datblygu ers y cyfnod hynny. Rydym wedi bod yn gwneud gwaith ymchwil i hanes dyfeiswyr enwog fel Benjamin Franklin, Carl Benz a Thomas Edison. Yn dilyn o hynny, rydym wedi bod yn edrych ar gylchedau trydan ac yn gweld sut mae trydan yn gweithio. Mi wnaethom ni greu arbrawf yn defnyddio balŵns I weld sut oedd trydan statig yn gweithio. Rydym hefyd wedi bod yn edrych ar ein ôl troed carbon ac edrych ar filltiroedd bwyd. Mi wnaethom ychydig o waith celf trwy ddilyn esiampl Peter Pendergast.


Mi wnaethom ddarllen chwedl Castellmarch a Rhys a Meinir a gwneud dipyn o waith ar y chwedlau lleol hyn. Daeth Megan Llŷn draw i'r ysgol i gyflwyno hanes Tryweryn i ni. Roedd hi'n actio fel athrawes yn ysgol yng Nghapel Celyn ac yn portreadu difrifoldeb y sefyllfa. Rydym hefyd wedi bod yn darllen nofel Kensuke's Kingdom. Cawsom wneud gwaith ar Pinocchio, buom ni'n disgrifio'r cymeriad. Rydym wedi gwneud llawer o waith ysgrifennu, yn cynnwys cael dadl dros godi melin wynt ar ben mynydd Rhiw.

Daeth Tad Kevin draw i'r ysgol i ddangos i ni sut i wneud chringl, roedd hyn yn llawer o hwyl a pawb wedi mwynhau cael mynd adref i fwyta fferins. Rydym hefyd wedi gwneud gwaith am y deg gorchymyn ac wedi bod yn edrych ar wahanol grefyddau sydd yn y byd.



Mentergarwch

Mae blwyddyn 5 a 6 wedi bod yn brysur yn gwneud addurniadau yn defnyddio coed crwn a rhoi llun ohonynt eu hunain ar yr addurn, mae'r addurn yn gallu mynd ar y goeden. Roedd posibl personoli yr addurn hwn i unrhyw un.



Rydym ni yn gwneud coed Nadolig bach allan o foch coed a phren. Daeth lolo a lot fawr o foch coed enfawr i'r ysgol ar ôl i goeden fawr ddisgyn yn ei gae o. Rydym wedi gwneud 54 o goed. Rydym wedi addurno'r coed gyda sêr, peli bach coch, glitter, eira a rhubanau. Rydym yn gwerthu'r holl addurniadau ni i gael arian i'r ysgol.



Mae blwyddyn 1 ac 2 yn gwneud daliwr kannwyll rystig. Mae nhw wedi bod yn brysur yn mesur, llifio, gludo a sandio darnau hir o goed er mwyn gwneud canhwylau bach del. Mae nhw wedi llwyddo i werthu 22 o ddalwyr canhwylau.



Mae blwyddyn Meithrin a blwyddyn derbyn wedi bod yn gwneud addurn coed bach allan o breniau bach wedi malu a sêr bach gyda llinyn bach i'w dal. Mae nhw wedi gwneud cyfanswm o 36 o'r addurniadau ac wedi bod yn eu gwerthu.

Nadolig

Rydym ni'n edrych ymlaen am y Nadolig yma yn ysgol Pont y Gof gan obeithio y bydd Sion Corn yn dod o gwmpas yr holl dai.

Cawsom ginio Nadolig bendigedig eto eleni, roedd yn flasus dros ben, diolch yn fawr iawn i staff y gegin am weithio mor galed. Ar yr un diwrnod, cawsom wisgo ein siwmperi Nadolig.

Cafodd plant blwyddyn 2, 3, 4, 5 a 6 wyluo sioe Nadolig Yr Heriau Huð, mi wnaethom ni wir fwynhau'r sioe. Anni, Tudur a Megan oedd yn cyflwyno ac roedd dyn drwg o'r enw Celyn y Gelyn yn ceisio dwyn ysbryd y Nadolig ond mi lwyddom ni i'w ddychryn i ffwrdd.

Ar nos Lun mi wnaeth y rhan fwyaf ohonom ni aros yn yr ysgol i wyluo ffilm Home Alone. Cafodd plant y Cyfnod Sylfaen noson 'gemau gwirion' ar nos Fercher ar ôl ysgol.

Rydym ni'n gobeithio ddaw Sion Corn i'r ysgol i'n gweld cyn diwedd y tymor.



Cyngerdd Nadolig

Eleni, mae ganddom ni ddau gyngerdd, rydym ni'n gwneud y ddau gyngerdd Nadolig ar stori'r geni. Mae un cyngerdd ysgol gyfan ac mae un cyngerdd dosbarth blwyddyn derbyn ac 1. Roedd yn rhaid i ni unwaith eto ffilmio'r cyngerdd. Rydym wedi mwynhau ei wneud wrth i ni fynd yn ôl a 'mlaen i'r capel eleni. Diolch i Mrs Catrin Jones am ddysgu caneuon newydd i ni. Rydym ni wrth ein boddau yn cael canu caneuon newydd hwyliog. Rydym ni wedi rhannu ein cyngerddau gyda rhieni dros ddsbarthiadau ar-lein.



Plant Mewn Angen



Ar ddiwrnod Plant Mewn Angen, mi gawsom gyfle i gasglu arian wrth wisgo pyjamas i'r ysgol. Mi wnaethom ni hefyd gymryd rhan yn her #amdani21 Aled Hughes ar Radio Cymru. Yr her oedd rhedeg / cerdded / hopian hynny o filltiroedd oedden ni'n gallu. Lwyddom ni fel ysgol i wneud 281 o filltiroedd ac ar ben hynny, llwyddom ni i gasglu £140.50 tuag at elusen Plant Mewn Angen.



Tudalen y Plant




Daeth Tudur i'r Ysgol atom ni i egluro'r gystadleuaeth yn y Llanw Llŷn. Y gystadleuaeth oedd creu gweithgar-
eddau hwyliog fuasai plant yn hoffi ei wneud wrth brynu'r papur pob mis. Pethau fel lliwio, chwila'r, gwneud
dot i ddot. Dywedodd Tudur fod y person sy'n ennill yn derbyn llond bwced llond o bethau celf.



Lliwiwch y goeden a'r ffon felys a chwiliwch
am y geiriau yn y chwila'r

s	ng	l	e	ng	a	w	t
e	a	c	c	e	l	y	n
r	l	b	o	e	d	g	r
e	i	u	e	r	rh	n	e
n	a	g	d	o	r	a	ch
n	g	w	e	t	e	a	w
a	u	a	n	rh	e	g	ch
c	b	s	h	a	i	l	a



Beth mae buwch
yn roi ar ei
frechdan?

Beth ydych chi'n
galw dafad heb ben
na choesau?

Coeden	anrheg	seren	angel
Celyn	corrach	bugail	

Mwwwstard
Cwmwl
Atebion

Y Carped Coch

Ym mis Hydref mi wnaeth athrawon rannu plant hŷn yr ysgol yn grwpiau o 8. Cawsom her i'w chyflawni a'r her oedd creu 'Spooky film'. Roeddem yn gwneud y dasg hon drwy gyfrwng y Saesneg er mwyn gwella ein Saesneg. Roedd yn rhaid i ni gydweithio i gyfarwyddo, sgriptio, ffilmio, rhoi'r ffilmiau i gyd at ei gilydd ac addasu'r ffilmiau. Mi wnaethom fwynhau'r dasg yn fawr. Mae'r ffilmiau i gyd i'w gweld ar wefan Youtube yr ysgol, ewch draw i'w gweld. Ar ôl ein holl waith caled, cawsom ddiwrnod 'Carped Coch' yn yr ysgol. Ar y diwrnod cawsom ein gwobrwyo a chawsom gyfle i wyllo ffilmiau ein gilydd drwy orffen y prynhawn gyda disgo a thynnu lluniau!



Dyfeisiau Difyr



Tymor yma mae pawb o flwyddyn 3, 4, 5 a 6 wedi creu dyfeisiau difyr. Rydym wedi bod wrthi adref ac yn yr ysgol yn ceisio gwneud ein dyfais. Roedd llawer o waith cynllunio a meddwl. Ar ôl wythnosau o gynllunio a chreu ein dyfais, deuth pawb a'i ddyfais difyr i'r ysgol i'w dangos. Cafodd pawb gyfle i weld ei ddyfais ei gilydd ac roedd y dyfeiswyr yn cael sefyll gyda'u dyfeisiau i egluro beth oedd y ddyfais a sut oedden nhw wedi ei wneud. Roedd pawb wedi cael syniadau gwych ac wedi bod wrthi yn ddiwyd yn gwneud eu dyfais. Roedd pob dyfais wedi cael ei greu a'i addurno'n dda.

Crëwyd pob mathau o ddyfeisiau. Dyma ychydig o enghreifftiau, Tŷ bach, daliwr wellingtons, pont, sied fferm, dyn bach trydanol, bachyn, car, llyfr coginio, animeiddiad, tegan i fabi a llawer o bethau eraill.



Meithrin

Diwrnod Cyntaf





Eleni, mae 9 o blant bach wedi dechrau yn ysgol Pont y Gof. 8 ddaeth ym mis Medi ac ymunodd Matthew gyda ni hwyrach ymlaen yn y tymor. Mae pawb i weld wedi setlo ac yn gweithio'n brysur iawn gyda Miss Gwenan Jones.

Yn nhymor yr Hydref mae plant Blwyddyn Meithrin wedi bod yn brysur yn dilyn Thema 'Fi fy hun'. Mae nhw wedi bod yn peintio wynebâu, creu teulu allan o glai, rhoi bath i'r babi dol a disgrifio lliw llygaid a gwallt.

Yn thema yr Hydref mae nhw wedi bod yn creu cartrefi i'r anifeiliaid sydd yn gaeafgysgu a bwydo anifeiliaid.

Yn thema y Nadolig mae nhw wedi bod yn helpu i wneud sled, gwneud helfa drysor, addurno coeden Nadolig, creu anrhegion efo lego, gyrru llythyrau yn y blwch postio ym Motwnnog ac mae Cled y Corrach wedi dod atyn nhw ers ddechrau mis Rhagfyr. Cafodd blwyddyn meithrin gyfle i wyllo ffilm Nadoligaidd cyn diwedd y tymor. Ar ddiwrnod siwmperi Nadolig, cafodd blwyddyn meithrin aros yn yr ysgol trwy'r dydd a chael cinio Nadolig bendigedig.



Blwyddyn 2



Themau dosbarth blwyddyn 2 y tymor hwn oedd 'Fi a fy myd'. Ar ddechrau'r tymor cafodd y dosbarth gyfle i ddysgu am yr ardal leol. Cafodd y dosbarth daith ddifyr i Garn Fadryn gyda Rhys ac mi ddysgon nhw lawer o bethau difyr am fywyd gwyllt megis anifeiliaid sy'n cynefino yn yr ardal. Mae nhw hefyd wedi cael taith o gwmpas pentref Botwnnog yn edrych ar wahanol fathau o dai sydd yn yr ardal. Diolch i Rhian Crugeran am ddod yma i roi hanes Capel Rhyd Bach i'r plant, difyr iawn. Daeth Anni Llŷn draw hefyd i ysgrifennu cerdd a thrafod teimladau gyda'r plant. Rydym ni'n lwcus iawn yn cael aelodau o'r gymdeithas i ddod draw i sgwrsio. Darllenon nhw lyfr stori Nain, Nain, Nain. Roedd Nain mewn cartref gofal a thrwy hyn, cafodd y plant ymuno gyda sesiwn ymarfer corff cartref Hafod Hedd ar-lein.

Mae nhw wedi bod yn darllen stori Beti Bwt a daeth Beti Bwt draw i ddangos iddyn nhw sut oedden nhw yn golchi dillad flynyddoedd yn ôl. Yn rhan o'u gwaith gwyddoniaeth mae nhw wedi bod yn edrych ar oleuni a gweld sut mae cylched drydan yn gweithio. Daeth Gwenda o'r archifdy i ddangos hen declynau i'r plant. Yn dilyn hyn cafodd blwyddyn 2 gyfle i ddysgu am hen wraig o'r enw Jane Thomas. Dynes hen ac unig oedd Jane Thomas a cafodd y dosbarth gyfle i'w helpu drwy feddlw am ffyrdd i godi ei chalon. Roedd gan Jane Thomas ddresel gymreig yn ei thŷ a cafodd y dosbarth gyfel i efelychu gwaith Luned Rhys Parri i greu dresel i'r dosbarth.

Mae blwyddyn 2 wedi bod yn dysgu am wyl Diwali sydd yn cael ei ddathlu gan grefydd hindwaidd. Cafodd y dosbarth gyfle i ddysgu stori Rama a Zita, coginio samosas a chreu patrymau mehndi ar eu dwylo.



Taith Garnfadryn



Yn ffodus iawn, cafodd plant y Cyfnod Sylfaen a blwyddyn 3 a 4 wâdd gan Rhys i gael taith addysgol yng Ngarnfadryn. Aeth y Cyfnod Sylfaen am dro o gwmpas gwaelod Garnfadryn a dysgon nhw law-er o bethau difyr. Mi wnaethon nhw ddysgu am fyd natur a phethau oedd o gwmpas yr ardal, buon nhw'n lwcus i weld Cudyll Coch a Bwncath ar eu taith.

Dysgom ni lawer o ffeithiau difyr, un peth difyr iawn oedd ar ochr y Garn oedd Bwrdd y Brenin. O dan bwrdd y brenin mae yna docyn o aur medden nhw. Gwelsom ni lawer o bethau difyr hefyd, roedd yna gytia Gwyddelig ac ar y cerrig oedd llawer o fwsog. Roedden nhw'n defnyddio'r mwsog hynny i gael dwr i'w yfed ac i ymolchi. Dangos Rhys ffosiliau i ni hefyd, roedd oel cregyn ar y ffosil-iau a cawsom ddod a nhw yn ôl i'r ysgol. Roedd yna lawer o redyn ar dop y Garn ac roedden yn defnyddio rhedyn i roi o dan yr anifeiliaid pan oedden nhw'n dod i fewn dros y Gaeaf. Llwyddodd pawb i gerdded i fyny i'r top un a cawsom lun o bawb ar y top.

Y 4 Diben



Mae'r llywodraeth yng Nghymru wedi creu cwricwlwm newydd ar gyfer plant rhwng 3 ac 16 oed. Mae'n gyfnod cyffrous iawn. Mae pob ysgol yn wynebu her a chyfrifoldeb o ddylunio eu cwricwlwm eu hunain ar gyfer ein plant erbyn Medi 2022. Rydym wedi rhannu holiadur i'r gymuned i'n helpu i lywio cwricwlwm a gweledigaeth ar gyfer ein hysgol ni, gan ddechrau gyda arwyddair pendant. Yn rhan o'r cwricwlwm mae 4 diben. Dylai'r pedwar diben fod yn ddyhead ac yn nod terfynol ar gyfer y cwricwlwm a gynllunir gan ysgolion.

Y 4 diben yw;

- Dysgwyr uchelgeisiol galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
- Cyfranwyr mentrus a chreadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Cafodd pob dosbarth yr her i greu logo ar gyfer un o'r 4 diben. Diolch i Gweno Glyn am feirniadu'r logos a'r rhai ddaeth i'r brig oedd Ela, Annie, Ellis a Gwen. Diolch hefyd i Carys Eurwen am ddefnyddio gwaith yr enillwyr i greu'r logo terfynol. Cawsom fore yn y neuadd i gyflwyno'r logos a daeth aelodau'r Llywodraethwyr draw i'r cyflwyniad.



Mi fuodd y gymdeithas rieni yn brysur iawn yn casglu nwyddau gan deuluoedd a busnesau lleol er mwyn creu ocsiwn i godi arian i'r ysgol. Cafodd yr ocsiwn ei chynnal dros Facebook. Rydym yn hynod ddiolchgar i bawb gyfrannodd ac i bawb gefnogodd yr ocsiwn drwy roi cynigion. Casglwyd dros £2,000 o arian i'r ysgol.

lechyd a Lles



Mi fuom ni yn brysur yn codi'r moron yn yr ardd lysiau. Roedd y moron wedi tyfu yn andros o dda, roedden nhw'r fawr iawn.

Roedd llwyth o foron i'w casglu. Roedd Anti Marina eisiau ychysig ohonynt i ni eu cael gyda ein cinio. Cawsom ni rannu gweddill y moron rhwng plant y dosbarth i fynd adref.



Tymor yma, mae blwyddyn 3, 4, 5 a 6 wedi bod yn mynd i'r Ganolfan Hamdden i nofio. Does dim lle i bawb gael nofio ar unwaith felly, tra mae un dosbarth yn nofio, mae'r dosbarth arall yn cael mynd i'r neuadd i wella ffitrwydd.

Does dim cystadleuthau wedi bod eto eleni, ond rydym yn gobeithio am fwy o gystadleuthau ar ôl y Nadolig.

Rydym yn cael gwersi chwaraeon yn yr ysgol yn wythnosol hefyd. Yn rhan o'n gwersi chwaraeon, rydym yn gwneud Clwb Dal I Fynd.

Mae pawb yn rhedeg am chwarter awr o gwmpas y trac ac yn cofnodi eu pellteroedd mewn metrau. Pob wythos, rydym yn ceisio rhedeg mwy o belter, rydym yn gweithio ar ein targedau.